

# Gofal Preswyl a Nyrsio Talu am Ofal mewn Cartref Gofal

Ebrill 2019 - Mawrth 2020



**Gwasanaethau Cymdeithasol**



## Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer pobl sy'n mynd i mewn i gartref preswyl neu nyrsio yn barhaol. Mae'n rhoi esboniad ynghylch y costau o symud i mewn i gartref ac fel y gallech fod yn gymwys i gael help tuag at y costau. Rydym yn sylweddoli fod hwn yn gyfnod anodd i chi a'ch perthnasau ac rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth o gymorth i chi.

## Help gyda deall gwybodaeth

Ysgrifennwyd y wybodaeth hon i ateb y cwestiynau ariannol mwyaf cyffredin a ofynnir i ni ynghylch cartrefi preswyl a nyrsio. Wedi darllen y wybodaeth hon, os ydych yn teimlo y carech gael unrhyw bwyntiau wedi eu hegluro ymhellach, peidiwch â phetruso cysylltu â Thîm Cyllid y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Gofal Seibiant/Dros Dro

Os ydych yn mynd i mewn i gartref preswyl neu nyrsio am ofal Seibiant/Dros Dro, mae'r rheolau'n union fel y rhai a ddisgrifir yn y wybodaeth hon.

## Yr Asesiad Ariannol

Bydd Swyddog Uchafu Incwm o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich helpu i lenwi'r Ffurflen Asesiad Ariannol. Pwrpas y ffurflen yw sicrhau y rhoddir i ni'r wybodaeth ariannol gywir i'n cynorthwyo i weithio allan unrhyw gyfraniad y gallai fod angen i chi ei wneud tuag at eich costau gofal.

Mae'r taliad fydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at gost eich arhosiad mewn cartref preswyl neu nyrsio yn dibynnu ar eich incwm a'ch cyfalaf. Darperir rhai enghreifftiau yn y wybodaeth hon, ond a fydddech gystal â nodi y gallai fod mathau eraill sy'n rhaid i ni eu hystyried. Ar gyfer pob incwm, cyfalaf neu gynilion, mae'n rhaid i ni weld tystiolaeth o fantolenni cyfrifon, er enghraifft cyfriflen banc.

## Beth gaiff ei gyfrif fel incwm?

Mae incwm yn golygu taliadau rheolaidd rydych yn eu derbynac mae'n cynnwys Pensiwn Ymddeoliad y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill megis Credyd Pensiwn, Cymhorthdal Incwm neu Bensiynau Galwedigaethol ac unrhyw flwydd-daliadau neu gronfeydd ymddiriedolaeth eraill.

## Beth gaiff ei gyfrif fel cyfalaf?

Cyfalaf yw'r cynilion ac eiddo sydd gennych. Mae cynilion yn cynnwys arian parod, cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, Tystysgrifau Cynilo Cenedlaethol, bondiau, PEP, TESSA, ISA a chyfranddaliadau. Gallafod yn eich enw chi'n unig neu mewn perchenogaeth ar y cyd. Bydd yn rhaid i ni weld dogfennaeth wreiddiol yn dystiolaeth o incwm a chyfalaf.

## A fydd yn rhaid i fi dalu tuag at fy ngofal mewn Cartref Preswyl/Nyrsio?

Os ydych wedi cael eich asesu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel person sydd angen gofal preswyl neu nyrsio hirdymor, mae'n rhaid i ni gyflawni asesiad ariannol.

Ar wahân i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n rhwym wrth S117, rhan (3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu os ydych chi'n cael eich asesu fel un sydd angen Gofal Iechyd Parhaus. Mae'n rhaid i bawb dalu rhywbeth at ei ofal/gofal. Os ydych chi'n credu y gallech chi fod yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, a fydddech gystal â thrafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol/gweithwraig gymdeithasol neu'ch rheolwr/rheolwraig gofal.

## Faint fydd yn rhaid i fi dalu?

Dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'n rhaid i bawb sydd â mwy na £50,000 mewn cyfalaf neu gynilion dalu cost lawn y lle yn y cartref. Mae hyn yn eithrio'r taliad gofal nyrsio cofrestredig am lefydd mewn cartrefi nyrsio (gweler yr adran gofal nyrsio).

## Sut ydym yn cyfrif eich cyfraniad?

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn anwybyddu unrhyw gyfalaf sydd gennych hyd at £50,000 o werth. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'ch incwm, yn cynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn cyfrif tuag at gost eich gofal.

Os oes gan y person sy'n llenwi'r ffurflen awdurdod cyfreithiol i gwblhau'r manylion ar eich rhan, mae'n rhaid amgáu tystiolaeth o'u hawdurdod gyda'r ffurflen e.e. pŵer atwrnai.

## Unwaith y byddaf wedi mynd i ofal preswyl/nyrsio, faint fyddaf yn gallu ei gadw ar gyfer fy nghostau personol?

O 8 Ebrill 2019 y swm y gallwch ei gadw ar gyfer eich anghenion personol eich hun yw £29.50; dyma'r swm a gaiff ei osod bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Gallech hefyd gadw hyd at £5.75 arall ar gyfer pob person sengl neu £8.60 fesul cwpl o Gredyd Pensiwn, os ydych yn gymwys.




## Beth os yw ffioedd y cartref a dewisais yn ddrutach na'r hyn mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei ystyried yn rhesymol?

Mae gan Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent uchafswm pris am gategoriâu o ofal preswyl a nyrsio. Os yw cost y cartref yr ydych wedi'i ddewis yn uwch na'r uchafswm ar gyfer yr Awdurdod bydd angen i drydydd parti, yn aml yn gyfaill neu'n berthynas, i dalu am y diffyg. Mae'n rhaid iddynt ddod i gytundeb ffurfiol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a gallu cynnal y cytundeb hwn drwy gyfnod y lleoliad.

## Sut fyddaf yn cael gwybod faint sy'n rhaid i mi dalu?

Pan fyddwch wedi llenwi eich Ffurflen Hawlio Aseiad Ariannol, bydd Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent yn eich hysbysu am y swm y bydd angen i chi ei dalu.



Dylech gysylltu â'r Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swm.

## Budd-daliadau

### A fyddaf yn gallu hawlio Credyd Pensiwn?

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal gyda phrawf modd ar gyfer pobl dros oedran pensiwn; arferai gael ei alw yn Fudd-dal Atodol, yn Gymhorthdal Incwm a Gwarant Isafswm Incwm. Gallwn eich cynorthwyo i hawlio Credyd Pensiwn os dymunwch.

Gofynnir i chi nodi os penderfynwch beidio hawlio Credyd Pensiwn pan fod gennych hawl i wneud hynny, y cewch serch hynny eich asesu fel pe byddech yn derbyn y budd-dal yma.


### A fydd mynd i ofal parhaol yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rwyf yn eu hawlio nawr?

Daw Lwfans Gweini/Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Personol (Elfen Gofal) i ben ar ôl 28 diwrnod o fod i ffwrdd yn barhaus o'ch cartref eich hun os ydych yn derbyn help ariannol tuag at gost eich arhosiad gan yr Awdurdod Lleol. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn talu unrhyw gyfraniad, rydych yn parhau i fod â hawl llawn i'r budd-daliadau hyn. Cysylltwch â'r Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau eraill a bod gennych unrhyw ymholiadau am hawl i gyfraniadau (yn cynnys beth sy'n digwydd i fudd-daliadau pan fyddwch yn yr ysbyty).

## A fydd bod yn berchen ar fy nghartref yn effeithio ar fy ffioedd?

Nid yw gwerth eich cartref yn cyfrif am 12 wythnos gyntaf arhosiad parhaol ond caiff ei gynnwys ar ôl 12 wythnos (os caiff ei werthu o fewn y 12 wythnos gyntaf, rhoddir ystyriaeth i'r trafodion fel rhan o'r aseiad ariannol). Gelwir hyn yn gyfnod anwybyddiad 12 wythnos.

Yn ystod y cyfnod anwybyddiad 12 wythnos yma, dylai taliad unrhyw Lwfans Gweini neu Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol ddod i ben ar ôl uchafswm o 28 diwrnod cyhyd â bod yr Awdurdod Lleol yn 'anwybyddu' yr eiddo. Os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn dylech hysbysu'r Ganolfan Budd-daliadau Anabledd am y trefniadau (gweler yr adran cysylltiadau defnyddiol). Eto nid yw hyn yn weithredol os ydych yn talu am eich lleoliad eich hun. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach am fudd-daliadau yn gyffredinol at y Tîm Cyllid Gwasanaethau Cymdeithasol.



## Eiddo

### Os wyf yn berchen tŷ, a fydd disgwyl i mi ei werthu?

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol y grym i'ch gorfodi i werthu eich eiddo, ond er na fydd gwerth eich eiddo yn cyfrif am 12 cyntaf eich lleoliad parhaol, caiff ei gynnwys ar ôl 12 wythnos (neu ei werth ariannol, os caiff ei werthu cyn 12 wythnos).

Rhoddir ystyriaeth i werth tŷ neu unrhyw eiddo neu dir arall yr ydych yn berchen arno wrth weithio allan beth yw eich cyfraniad tuag at eich gofal. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau dilynol, ni roddir ystyriaeth i'ch eiddo wrth gyfrif eich cyfraniad wythnosol:

- Mae'ch partner yn dal i fyw yn yr eiddo (cyn belled nad ydych wedi ysgaru neu wahanu).



- Mae perthynas 16 oed neu iau (yr ydych chi'n gyfrifol amdano/ amdani) yn dal i fyw yn yr eiddo.
- Mae perthynas sy'n hawlio budd-dal anableded yn dal i fyw yn yr eiddo.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gan yr Awdurdod Lleol y disgrisiwn i anwybyddu gwerth yr eiddo. Er enghraifft, os yw eich gofalwr hirdymor yn parhau i fyw yno, neu os byddai gwerthu'r tŷ yn achosi caledi i rywun a fu'n rhannu eich cartref ar sail barhaol. Mewn amgylchiadau felly, bydd angen i chi roi cais ysgrifenedig am anwybyddiad a rhoi'r ffeithiau i gefnogi eich cais. Byddwn yn eich hysbysu mewn ysgrifenedig o ganlyniad penderfyniad yr Awdurdod Lleol yn dilyn cyngor cyfreithiol. Mae gan yr Awdurdod hawl i gofrestru diddordeb yn eich eiddo os oes angen.

## Beth sy'n digwydd os wyf yn cael trafferth yn gwerthu fy nhŷ?

Os nad ydych wedi gwerthu eich eiddo ar ôl i'r 12 wythnos gyntaf ddod i ben, rhoddir ystyriaeth i werth eich cartref yn eich asesiad ariannol.

Bydd y Tîm Cyllid Gwasanaethau Ariannol wedyn yn cael ffigur prisiad ac yn ei ddefnyddio i gyfrif eich ffi fel pe byddai swm o gynilion ar gael i chi. Os nad ydych yn medru talu swm wythnosol yng nghyswllt yr eiddo, bydd gennych opsiwn i ymrwymo i drefniant talu gohiriedig.

## Trefniadau Talu Gohiriedig

Mae'r trefniant hwn yn caniatáu i chi ohirio talu eich ffioedd a chaniatáu iddynt gronni fel dyled (benthyciad) nes y caiff y tŷ ei werthu. Bydd y Cyngor yn talu'r costau gofal a gytunwyd yn ôl am bridiant cyfreithiol ar yr eiddo. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi pridiant cyfreithiol neu rybudd (math o weithred morgais) ar y tŷ gyda'r Gofrestr Tir, sy'n golygu fod yn rhaid talu'r balans yn ôl pan werthir y tŷ. Mae hyn yn diogelu'r swm o arian sydd yn ddyledus i'r Awdurdod Lleol.

Pan werthir y tŷ yn y diwedd, dylai eich cyfreithiwr anfon manylion o drafodion net y gwerthiant i'r Tîm Incwm. Gall y Swyddog Uchafu Incwm wedyn sicrhau y defnyddiwyd y ffigur cywir wrth gyfrif yr ôl-ddyledion sy'n ddyledus bryd hynny.

Gall fod costau sefydlu yn gysylltiedig gyda thaliadau gohiriedig. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan y Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Pwy sy'n gymwys am drefniant talu gohiriedig?

Perchnogion cartrefi sy'n symud yn barhaol i ofal preswyl/nyrsio a gyllidir gan yr awdurdod lleol sydd un ai:

- ddim yn dymuno gwerthu eu cartref, NEU
- sy'n methu gwerthu eu cartref yn ddigon cyflym i dalu am eu gofal.

ac sy'n cyflawni'r meini prawf dilynol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol wedi asesu eu bod angen gofal preswyl neu nyrsio.
- Yn gymwys am gyllid gan y Cyngor.
- â diddordeb buddiol mewn eiddo y buont yn byw ynddo sy'n werth digon i dalu am gyfnod y lleoliad.
- Talu cyfraniad wythnosol yn seiliedig ar asesiad o incwm ac asedau.
- Cytuno ar delerau ac amodau'r trefniant talu gohiriedig ac yn llofnodi'r cytundeb.

## Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Caiff yr eiddo ei anwybyddu am y 12 wythnos gyntaf. Wedyn, yn unol â thelerau'r cytundeb, bydd y Cyngor yn rhoi pridiant cyfreithiol ar yr eiddo. Yn ôl am hynny bydd y Cyngor yn talu gweddill y costau gofal hyd at gyfradd a gytunwyd a fyddai wedi ei thalu o werthiant yr eiddo.

## Pryd mae'n rhaid ad-dalu'r arian?

Mae'n rhaid ad-dalu'r arian un ai:

- ar ôl i'r eiddo gael ei werthu, NEU
- pan gaiff y cytundeb ei derfynu, NEU
- o fewn 56 diwrnod o farwolaeth..

## Beth os nad wyf yn dymuno cael cytundeb talu gohiriedig?

Codir cost lawn eich lleoliad arnoch os nad ydych yn dymuno ymrwymo i drefniant talu gohiriedig. Mater i chi yw sut y byddwch yn talu'r gost yma.

## Beth os wyf yn berchen cyn dŷ cyngor a brynwyd dan y cynllun "Hawl i Brynu"?

Os yw'r tŷ yr ydych yn berchen arno yn gyn dŷ cyngor a brynwyd dan y cynllun "Hawl i Brynu" a bod rhywun arall wedi'ch helpu i'w brynu, gall fod yn bosibl anwybyddu'r gwerth (neu gyfran o'i werth). Bydd angen i'r person a wnaeth helpu gyda'r prynu roi tystiolaeth dderbyniol o'u cyfraniad.

Nid yw hyn yn anwybyddiad awtomatig a chaiff pob achos ei drin ar sail unigol. Felly dylid cyflwyno tystiolaeth gyda'ch ffurflen asesiad ariannol a chewch eich hysbysu mewn ysgrifen am benderfyniad cyfreithiol Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Beth sy'n digwydd os wyf yn rhoi fy nghartref i rywun?

Mae'n rhaid i ni ymchwilio'r amgylchiadau yn fanwl os yw person yn rhoi eu cartref, cynilion neu asedau cyn mynd i ofal preswyl/nyrsio neu pan maent eisoes yn byw yno. Mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar unrhyw werthiant asedau ar lai na'i gwir werth marchnad



Fel awdurdod lleol mae'n ddyletswydd arnom ddiogelu cyllid y cyhoedd. Mae'n rhaid i ni edrych i weld os oedd dymuniad i osgoi talu am, neu tuag at, ffioedd gofal preswyl/nyrsio yn rheswm sylweddol dros waredu â'r ased.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni weithredu os penderfynwn fod osgoi talu ffioedd neu ostwng y swm taladwy yn ffactor sylweddol yn y penderfyniad i roi ased i rywun neu ei gwerthu ar lai na'i gwerth marchnad. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallwn un ai eich asesu fel bod yn dal i fod yn berchen yr ased(au) neu ei gwneud yn ofynnol i'r person y gwnaethoch roi'r eiddo iddo i gyfrannu tuag at eich ffioedd.

## Beth sy'n digwydd os byddaf i'n mynd i ofal preswyl a bod fy mhartner yn aros gartref?

Mae'r asesiad ariannol yn seiliedig ar eich incwm a'ch asedau chi yn unig. Cewch hefyd eich asesu ar eich cyfran neu unrhyw asedau yr ydych yn gyd-berchen arnynt (heblaw eiddo os yw'ch partner yn dal i fod yn byw gartref).

## Gofal Nyrsio

### Beth ydym a Ariennir daliadau Gofal Nyrsio?

Mae nyrs gofrestredig yn asesu gofal pob preswylydd mewn lleoliad nyrsio, ac wedyn mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn talu swm penodol.



Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn talu'r swm hwn yn uniongyrchol i'r cartref nyrsio. Ni fydd hyn yn effeithio ar y cyfraniad gan y preswylydd os nad yw'n talu am gost eu lleoliad yn uniongyrchol i'r cartref ac yn talu'r gost lawn. Mewn achosion o'r fath dylai'r preswylydd wirio y cafodd eu ffioedd wythnosol eu gostwng yn unol â hynny.

### Beth sy'n digwydd os yw fy amgylchiadau yn newid?

Cysylltwch â'r Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol os gwelwch yn dda os yw'ch amgylchiadau wedi newid a'ch bod angen cyngor. Caiff Ffurflen Asesiad Ariannol newydd ei llenwi os oes angen.

Mae newidiadau yn cynnwys:

- Cynnydd/gostyngiad mewn incwm neu gyfalaf.
- Eiddo a anwybyddid yn flaenorol heb fod bellach yn dod o fewn y meini prawf anwybyddiad, e.e. perthynas 60 oed neu drosodd yn symud allan.
- Os byddwch yn dod yn gymwys am ofal iechyd parhaus.

## Beth sy'n digwydd os wyf ar y dechrau'n talu cost lawn fy ngofal fy hun a bod fy nghyfalaf yn gostwng dan £50,000?

Gall yr Awdurdod Lleol yn awr dalu am ran o gost eich lleoliad. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu pa incwm a gewch o ffynonellau eraill e.e. pensiynau galwedigaeth. Bydd angen i chi siarad gyda Thîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dim ond os ydych chi'n dweud wrthym amdanynt y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod i wybod am newidiadau o'r math yma. Dylai unigolion gysylltu â'r Awdurdod Lleol tua 3 mis cyn y credant y bydd eu cynilion yn cyrraedd y lefel yma a gofyn am ailasesiad o'u cyllid. Dim ond o'r dyddiad y mae'r unigolyn yn cysylltu ag ef am help y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cyllid, felly ni fyddir yn rhoi ad-daliad iddynt os yw eu cyfalaf wedi gostwng dan £50,000 cyn iddynt gysylltu â'r Awdurdod Lleol.

## Adolygu ac Apêl

Hysbysir cleient am eu ffi pan gawsant eu hasesu. Os yw cleient yn anhapus gyda'r ffi a aseswyd, dylid gofyn am adolygiad o fewn 10 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad ysgrifenedig.

Bydd Arweinydd y Tîm Incwm yn cynnal adolygiad a bydd yn cynnwys ailgyfrif ffi y cleient; hysbysir y cleient am y canlyniad o fewn 10 diwrnod o dderbyn y cais, bydd hyn yn rhoi manylion unrhyw newid i'r ffi wythnosol a aseswyd ynghyd ag esboniad.

Yn dilyn yr adolygiad os yw'r cleient yn dal i fod yn anhapus gyda'r ffi wythnosol a aseswyd arnynt, dylent ddilyn proses gwynion swyddogol yr Adran.



## Sut i dalu ffioedd

Anfonir biliau bob mis yn rhestru gwasanaethau a gafodd eu darparu, eu costau a'r cyfanswm taladwy bob mis.

Gellir gwneud taliadau drwy:

- Siec
- Gorchymyn Banc
- Taliad Ar-lein
- Cerdyn Credyd neu Gerdyn Debyd\* (drwy gysylltu â C2BG - Canolfan Cyswllt y Cyngor)
- Arian parod (drwy fynd â'ch anfoneb i unrhyw Swyddfa'r Post, safle PayPoint neu'r Ganolfan Ddinesig)

\*Dylid nodi fod gordal bach wrth dalu gyda cherdyn credyd/debyd

Er mwyn gweithredu'r ffioedd am wasanaethau yn deg, bydd y Cyngor Bwrdeisdref Sirol yn cymryd camau priodol i gasglu ffioedd nas talwyd gan bobl yr aseswyd eu bod yn atebol.

## Sut all person wneud yn siŵr eu bod yn hawlio eu holl fudd-daliadau i helpu talu am ffioedd??

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn deall fod gorfod talu am wasanaethau yn debygol o fod yn bryder mawr i bobl, er y cadwyd y ffioedd mor isel ag sydd modd.

Mae cyfrif yr hyn y bydd pobl yn gorfod ei dalu tuag at gost y gwasanaethau a dderbyniant yn rhoi ystyriaeth i'w gallu i dalu.

Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol i unrhyw un sy'n gorfod talu am wasanaethau fod yn rhaid rhoi help i hawlio'r holl fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol a phensiynau mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau nad yw pobl wedi eu hawlio yn y gorffennol.

Bydd y Swyddog Uchafu Incwm yn cwblhau gwiriad budd-daliadau pan fyddant yn cwblhau'r asesiad ariannol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn ac mae ar gael i bawb sy'n derbyn gwasanaeth sy'n rhaid talu amdano gan yr Adran.

## Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth ariannol a phersonol a roddwyd?

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn trin yr holl wybodaeth yn hollol gyfrinachol.

Ni chaiff yr wybodaeth ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben heblaw cyfrif y cyfraniad a ddisgwyllir tuag at y ffioedd.

Gallwn rannu gwybodaeth gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor, megis Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor i sicrhau fod yr wybodaeth a gedwir yn gywir.

## Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth

Mae gennym system i sicrhau y rhoddir sylw i'ch sylwadau, cwynon a chanmoliaeth.

Efallai eich bod eisiau i ni wybod sut y teimlwch am y gwasanaeth a gynigiwyd i chi, y ffordd y gwnaed penderfyniadau neu'r broses asesiad ariannol.

Os felly, dylech siarad gyda'ch Rheolwr Gofal a drefnodd y gwasanaethau i chi. Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd y maent wedi ymateb i'ch sylwadau, neu os teimlwch na allwch drafod materion gyda nhw, dylech gysylltu â Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler yr adran cysylltiadau defnyddiol).

Dylid nodi y gall y rheolau ar asesiadau ariannol, ffoedd taladwy a therfynau cyfalaf newid. Mae'r wybodaeth hon yn gyfredol o 8 Ebrill 2019 - Mawrth 2020. Dylech siarad gyda'r Tîm Incwm Gwasanaethau Cymdeithasol i gael gwybod am unrhyw newidiadau ers ei chyhoeddi (gweler yr adran cysylltiadau defnyddiol). Dylid nodi mai fel canllaw yn unig y bwriedir y nodiadau hyn.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Os ydych yn ystyried mynd i gartref preswyl neu nyrsio neu'n gweithredu ar ran rhywun yn y sefyllfa honno ac yr hoffech gyngor, mae'r dilynol yn gysylltiadau defnyddiol:

### **C2BG – sy'n delio ag atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol:**

C2BG

Y Ganolfan Gyswllt

Ffôn: (01495) 311556

### **Tîm Cyfeirio Dyletswydd**

Ffôn: (01495) 315700

### **Tîm Cyllid y Gwasanaethau Cymdeithasol – sy'n delio â chyngor ar fudd-daliadau ac asesiadau ariannol:**

Adran Adnoddau

Cwrt yr Eingion

Stryd yr Eglwys

Abertyleri

NP13 1DB

Ffôn: (01495) 355794

### **Cwynion Gwasanaethau Cwsmeriaid**

Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid

Llys Einion

Stryd yr Eglwys

Abertyleri

NP13 1DB

Ffôn: (01495) 357715





**Tîm Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol** - sicrhau y caiff dogfennau contract eu cwblhau gan bawb perthnasol:

**Tîm Comisiynu a Chontractio**

Gwasanaethau Cymdeithasol

Llys Einion

Stryd yr Eglwys

Abertyleri

NP13 1DB

Ffôn: (01495) 356096

**Canolfan Budd-daliadau i'r Anabl**

Safle Trin y Post A

Wolverhampton

WV98 2AB

Ffôn:

Lwfans Byw i'r Anabl 0800 121 4600

Lwfans Gweini 0800 731 0122

Taliad Annibyniaeth Personol 0800 121 4433

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu llyfryn defnyddiol dan y teitl "Meddwl am Gartref Gofal - Canllaw i'r hyn mae angen i chi wybod".

Gallwch lawrlwytho copi yn [www.cymru.gov.uk/iechyd](http://www.cymru.gov.uk/iechyd) neu cysylltwch â (029) 2082 3944.

**Y Gwasanaeth Pensiwn** - Mae hyn yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (gynt DHSS, DSS a'r Asiantaeth Budd-daliadau) sy'n delio gyda hawliadau a thalu budd-dlaiadau i bobl dros 60 oed (gweler [www.dop.gov.uk](http://www.dop.gov.uk)).

Post Handling Site B

Wolverhampton

WV99 1AN

Ffôn: 0800 731 0469

**Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru**

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF3 1BN

Ffôn: (01656) 641150

**Lwfans Gofalwr**

Ffôn: 0800 731 0297

Ffôn-testun : 0800 731 0317 (ar gyfer anawsterau clyw neu leferydd)  
Mae llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 9am i 4.30pm ar ddydd Gwener.

Drwy e-bost : [cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk](mailto:cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk)

**Uned Lwfans Gofalwr**

Safle Trin y Post A

Wolverhampton

WV98 2AB

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 7900 126

## Mudiadau Gwirfoddol

### Mudiadau Cymru

Tŷ Afon  
Ynysbridge Court  
Gwaelod y Garth  
Caerdydd  
CF15 9SS  
Ffôn: (029) 2081 1370  
[www.carerswales.co.uk](http://www.carerswales.co.uk)

### Cyngor ar Bopeth Brynmawr

107 - 110 Worcester Street  
Brynmawr  
Blaenau Gwent  
Ffôn (03444) 772020

**Age Cymru** – [www.ageuk.org.uk](http://www.ageuk.org.uk)

Ffôn: 08000 223 444

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen BM008-4 Ebrill 2019  
[www.blaenau-gwent.gov.uk](http://www.blaenau-gwent.gov.uk)